OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2002 No. 325

# Rheoliadau Gofal Iechyd Preifat a Gwirfoddol (Cymru) 2002

## RHAN IV

## GOFYNION YCHWANEGOL SY'N GYMWYS I YSBYTAI ANNIBYNNOL

### PENNOD 3

### YSBYTAI IECHYD MEDDWL

**Cymhwyso rheoliadau 43 i 46**

**42.** Mae rheoliadau 43 i 46 yn gymwys i ysbytai annibynnol o'r mathau canlynol—

(a) y rhai y mae darparu triniaeth feddygol neu seiciatrig ar gyfer anhwylder meddyliol yn brif ddiben ganddynt; a

(b) y rhai lle darperir triniaeth neu wasanaeth nyrsio (neu'r ddau) ar gyfer personau sy'n agored i gael eu cadw o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983(**1**).

**Diogelwch cleifion ac eraill**

**43.**—(1) Rhaid i'r datganiad o bolisïau a gweithdrefnau sydd i'w baratoi a'i weithredu gan y person cofrestredig yn unol â rheoliad 8(1)(d) gynnwys polisïau a gweithdrefnau mewn perthynas â'r canlynol—

(a) asesu tueddiad claf tuag at drais a hunan-niwed;

(b) darparu gwybodaeth i gyflogeion ynghylch canlyniad asesiad o'r fath;

(c) asesiad o effaith cynllun safle'r ysbyty, a'i bolisïau a'i weithdrefnau, ar y risg y byddai claf yn niweidio ei hun neu berson arall; ac

(ch) yr hyfforddiant sy'n cael ei ddarparu er mwyn galluogi cyflogeion i leihau'r risg y byddai claf yn niweidio ei hun neu berson arall.

(2) Rhaid i'r person cofrestredig, yn benodol, baratoi a gweithredu protocol hunanladdiad yn yr ysbyty sy'n gofyn am—

(a) archwiliad cynhwysfawr o gyflwr meddwl pob claf;

(b) cloriannu hanes anhwylder meddwl claf, gan gynnwys adnabod tueddiadau hunanladdol;

(c) cynnal asesiad o dueddiad y claf i hunanladdiad; ac

(ch) os oes angen, cymryd camau priodol i leihau'r risg y byddai claf yn lladd ei hun.

**Rheoli ymddygiad afreolaidd**

**44.** Rhaid i'r person cofrestredig baratoi a gweithredu polisi ysgrifenedig sy'n nodi—

(a) sut y bwriedir rheoli ymddygiad afreolaidd gan glaf;

(**1**) 1983 p.20.

(b) mesurau atal a ganiateir a'r amgylchiadau pan y gellir eu defnyddio;

(c) gofynion i gyflogeion adrodd ar enghreifftiau difrifol o drais neu hunan-niwed, gan gynnwys canllawiau ynghylch sut y dylid dosbarthu'r digwyddiadau hyn; ac

(ch) y weithdrefn ar gyfer adolygu digwyddiadau o'r fath a phenderfynu ar y camau sydd i'w dilyn wedi hynny.

### Ymwelwyr

**45.** Rhaid i'r person cofrestredig baratoi a gweithredu polisïau a gweithdrefnau ysgrifenedig yn yr ysbyty mewn perthynas â chleifion yn derbyn ymwelwyr.

### Cofnodion iechyd meddwl

**46.** Rhaid i'r person cofrestredig sicrhau bod unrhyw gofnodion y mae'n ofynnol eu cadw o dan Reoliadau Iechyd Meddwl (Ysbyty, Gwarcheidwadaeth a Chydsynio â Thriniaeth) 1983(**2**), ac sy'n ymwneud â chadw claf o dan orchymyn mewn ysbyty annibynnol neu ei drin, yn cael eu cadw am gyfnod nad yw'n llai na phum mlynedd gan ddechrau ar y dyddiad y mae'r person y maent yn ymwneud ag ef yn peidio â bod yn glaf yn yr ysbyty.

(**2**) O.S. 1983/893, fel y'i diwygiwyd.